# PRIFFYRDD, CYMRU

## 2013 RHIF. 20

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PONT BEAUFORT, TREFORYS, ABERTAWE) 2013

*Gwnaed* *26 Gorffennaf 2013*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990"), a phob pŵer galluogi arall(2).

1. Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Dinas a Sir Abertawe;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio y cyfeirir ato isod wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Pont Beaufort, Treforys, Abertawe) 2013" ac sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog sebra ar y plan a adneuwyd, a hwythau wedi eu bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn i gael ei wneud, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 24 Ionawr 2013 o dan y cyfeirnod 2012/1376.

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhan newydd o'r briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adneuwyd, ac a fydd yn briffordd sydd, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(3), i'w chynnal a'i chadw ar draul y pwrs cyhoeddus, a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drosti.

4. Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) hyd nes y bydd datblygwr wedi darparu'r briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r rhan o briffordd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(ch) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr gan gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) o'r erthygl hon wedi eu cyflawni.

5. Os, yn union cyn cau rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, y bydd unrhyw offer ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yna, (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran yr offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

6. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf, yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990 a'i enw yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Pont Beaufort, Treforys, Abertawe) 2013.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 26 Gorffennaf 2013

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1990 p.8.
**(2)** Yn rhinwedd O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** 1980 p.66

## YR ATODLENNI

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

## ATODLEN 1

**<u>Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Y rhan afreolaidd ei siâp honno o briffordd a elwir yn Bont Beaufort yn Nhreforys yn Abertawe, sy'n ffinio â Ffordd Cwm Tawe i'r gorllewin a Pharc Menter Abertawe i'r dwyrain, ac sy'n 73 o fetrau (y bont yn 40 o fetrau) yn ei man hiraf, ac yn 5 metr yn ei man lletaf ac sydd â chyfanswm arwynebedd o 450 o fetrau sgwâr.

## ATODLEN 2

**<u>Disgrifiad o'r rhan o briffordd i'w darparu</u>**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd i'r de o'r Bont Beaufort bresennol yn Nhreforys yn Abertawe, a fydd yn ffinio â Ffordd Cwm Tawe i'r gorllewin a Pharc Menter Abertawe i'r dwyrain, sy'n 62 o fetrau (y bont yn 46 o fetrau) yn ei man hiraf, ac yn 5.1 metr yn ei man lletaf ac sydd â chyfanswm arwynebedd o 475 o fetrau sgwâr.

## ATODLEN 3

**<u>Y Datblygiad Arfaethedig</u>**

Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys adeiladu Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Cwm Tawe Isaf ar hyd glannau Afon Tawe sy'n cynnwys ailalinio Arglawdd Gogledd Cwm Tawe a chreu cynefin gwlyptir, i gynnwys waliau newydd i amddiffyn rhag llifogydd, gwaith diogelu, tirlunio ac adfer ffordd beicio/llwybr cerdded.

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (PONT BEAUFORT, TREFORYS, ABERTAWE) 2013

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru

wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i ddarparu ar gyfer y rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Awdurdodir cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 3 i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn Cau Priffyrdd (Pont Beaufort, Treforys, Abertawe) 2013 ("y Gorchymyn") yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Dinas a Sir Abertawe, y Ganolfan Ddinesig, Ffordd Ystumllwynarth, Abertawe SA1 3SN yn ystod oriau swyddfa arferol neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim oddi wrth y cyfeiriad isod.

Os bydd person yn cael ei dramgwyddo gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un neu ragor o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf,

caiff person, ymhen 6 wythnos o 1 Awst 2013 wneud cais at y diben hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Anstatudol', 'Trafnidiaeth, Cymru', 'Gorchmynion Cau TCPA', '2013').

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

*M D Burnell*

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**ATODLEN 1**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn**

Y rhan afreolaidd ei siâp honno o briffordd a elwir yn Bont Beaufort yn Nhreforys yn Abertawe, sy'n ffinio â Ffordd Cwm Tawe i'r gorllewin a Pharc Menter Abertawe i'r dwyrain, ac sy'n 73 o fetrau (y bont yn 40 o fetrau) yn ei man hiraf, ac yn 5 metr yn ei man lletaf ac sydd â chyfanswm arwynebedd o 450 o fetrau sgwâr.

## ATODLEN 2

### Disgrifiad o'r rhan o briffordd i'w darparu

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd newydd i'r de o'r Bont Beaufort bresennol yn Nhreforys yn Abertawe, a fydd yn ffinio â Ffordd Cwm Tawe i'r gorllewin a Pharc Menter Abertawe i'r dwyrain, sy'n 62 o fetrau (y bont yn 46 o fetrau) yn ei man hiraf, ac yn 5.1 metr yn ei man lletaf ac sydd â chyfanswm arwynebedd o 475 o fetrau sgwâr.

## ATODLEN 3

### Y Datblygiad Arfaethedig

Mae’r datblygiad arfaethedig yn cynnwys adeiladu Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Cwm Tawe Isaf ar hyd glannau Afon Tawe sy'n cynnwys ailalinio Arglawdd Gogledd Cwm Tawe a chreu cynefin gwlyptir, i gynnwys waliau newydd i amddiffyn rhag llifogydd, gwaith diogelu, tirlunio ac adfer ffordd beicio/llwybr cerdded, yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd gan y Cyngor o dan Ran III o Ddeddf 1990, ar 24 Ionawr 2013 o dan gyfeirnod 2012/1376.

1